



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

---

## **DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU**

---

**TEITL** Rheoliadau Bwyd a Diod (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

**DYDDIAD** 02 Rhagfyr 2020

**GAN** Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

**SO30C – OS a osodwyd yn Senedd y DU sy'n diwygio deddfwriaeth mewn maes datganoledig**

**Rheoliadau Bwyd a Diod (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

**Y Gyfraith sy'n cael ei diwygio**

- Rheoliad (UE) rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i'r defnyddiwr.
- Rheoliad Dirprwyo'r Comisiwn (UE) 2018/273 sy'n atodi Rheoliad (UE) rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â'r cynllun cydsynio plannu gwinwydd, y gofrestr gwinlannoedd, y dogfennau a'r tystysgrifau ategol, y gofrestr i mewn ac allan, datganiadau, hysbysiadau a gwybodaeth hysbysedig gorfodol a Rheoliad atodol (UE) rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch yr archwiliadau a'r cosbau perthnasol.

**Diben y Rheoliadau**

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio deddfwriaeth yr UE a ddargedwir ynghylch gwin a rheolau gwybodaeth am fwyd.

Mae'r newidiadau i'r rheoliadau gwin yn sicrhau bod y darpariaethau sy'n ymwneud â masnachu gwin, monitro cynhyrchiant a chadw cofnodion yn gweithio'n gywir ar ôl y dyddiad gweithredu ac y cânt eu hailddyrrannu'n briodol gan ystyried y newid o fod yn aelod-wladwriaeth i fod yn wlad ar wahân.

Mae Rheoliadau 2020 yn nodi newidiadau amrywiol a fydd yn adlewyrchu'r elfennau sy'n gyd-ddibynnol ar ddeddfwriaeth arall, yn bennaf yr hyn a wnaed gan HMRC, i sicrhau ar ôl y newid o fesurau rheoli'r Undeb Tollau Sengl i fesurau rheoli tollau penodol y DU eu bod yn parhau i weithio'n gywir.

Mae'r mân newidiadau i labeli bwyd yn ymwneud â'r diffiniad o "darddle" ("*place of provenance*") a "gwlad tarddiad" ("*Country of origin*") trwy ddileu groesgyfeiriadau at reoliadau'r CE a rhoi croesgyfeiriadau yn eu lle at y ddeddfwriaeth ddomestig a gyflwynir gan yr HMRC.

Mae Rheoliadau 2020 a'u Memorandwm Esboniadol, sy'n gosod effeithiau'r diwygiadau, i'w gweld yma: <https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-food-and-drink-amendment-eu-exit-no-4-regulations-2020>

### **Unrhyw effaith y gall yr offeryn statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae Rheoliadau 2020 yn gwneud mân newidiadau technegol i ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn gweithio'n effeithiol ar ddiwedd y cyfnod pontio. Nid ydynt yn effeithio ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru nac ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

### **Pam y cafodd cydsyniad ei roi**

Mae cydsyniad wedi'i roi i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn cysylltiad ag ac ar ran Cymru ar faterion yn ymwneud â gwin a rheolau gwybodaeth am fwyd, er sicrhau effeithlonrwydd a hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Ar ôl ystyried y diwygiadau arfaethedig yn llawn a gofalus, asesu'r cyfarwyddiadau polisi a dadansoddi'n gyfreithiol y gwaith drafftio, gwelir nad yw'r diwygiadau'n newid polisi. Bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau bod y llyfr statud yn parhau'n ymarferol ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu.